TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Adroddiad Blynyddol 2023 - 2024

# Cydymffurfiad â Safonau'r Iaith Gymraeg

**Paratowyd yn unol â gofynion**

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Mehefin 2024



**This document is also available in English**

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Cefndir 3

3. Cydymffurfiad 4
- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Llunio Polisi
- Safonau Gweithredu
- Cwynion
- Sgiliau'r Iaith Gymraeg
- Hyfforddiant Iaith Gymraeg
- Recriwtio

4. Casgliadau 14

# 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i drigolion ac ymwelwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Trwy gydol 2023/24, mae'r tîm wedi gweithio gyda Cyfarwyddiaeth i godi ymwybyddiaeth a chynghori ar ofynion cyfreithiol y Safonau. Mae gwaith wedi dechrau ar Hyfforddiant Corfforaethol ar gyfer y Gymraeg i sicrhau bod gweithwyr newydd yn ymwybodol o'r pwysigrwydd a'r gofynion moesegol wrth weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi partneriaid a sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor gyda'r nod o wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno'n cydymffurfiad â'r Safonau ac yn cyflwyno'r data angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Rydym wedi dileu rhwystrau a allai wahardd cynnydd y Safonau a bydd yn arwain i fwy o hyrwyddo a chyflogi staff i ddarparu ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Cyngor llawn ac mae'n sicrhau fod Aelodau Etholedig yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldebau corfforaethol a rhwymedigaethau statudol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol, wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor, yn cael ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor (www.torfaen.gov.uk), o dan adran yr iaith Gymraeg a bydd ar gael mewn swyddfeydd lleol ble mae mynediad i'r cyhoedd, erbyn 30 Mehefin 2024 fan bellaf.

Mae'r Comisiynydd y Gymraeg presennol, Mrs Efa Gruffudd Jones wedi bod yn y swydd ers Ionawr 2023.

## 2. Cefndir

Cynhyrchir yr Adroddiad Blynyddol hwn dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015. O dan y fframwaith cyfreithiol mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen adrodd ar bum maes statudol.

| Meysydd | Safon a/neu Isadran Berthnasol |
|---|---|
| **Cydymffurfiad** | 158, 164, 170 |
| **Cwynion** | 147, 148, 149, 156, 158 *(2)*,<br>162, 164 *(2)*, 168 *(a)*, 170 *(2) (d)* |
| **Sgiliau'r Iaith Gymraeg** | 170 *(2) (a)*, 151 |
| **Hyfforddiant Iaith Gymraeg** | 170 *(2) (b) (c)*, 152 |
| **Recriwtio** | 170 *(2) (ch)*, 154 |

Ceir manylion Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor o fewn yr Hysbysiad Cydymffurfio dyddiedig 30 Medi 2015. Mae'r cyngor yn ddarostyngedig i 170 o Safonau sydd wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gael yma

Mae'r Tîm Iaith Gymraeg yn rhan o'r Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n eistedd o dan gyfarwyddiaeth Oedolion a Chymunedau. Ar hyn o bryd, mae pedwar aelod staff yn gweithio ar gyflawni gwaith Iaith Gymraeg corfforaethol ar ran y Cyngor:

Swyddog yr Iaith Gymraeg
Cydgysylltydd Cyfieithu Cymraeg
Cyfieithwyr yr Iaith Gymraeg (1 x LL/A, 1 x Rh/A)

Cyfarwyddiaeth Oedolion a Chymunedau
Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl
Torfaen, NP4 6YB

Ffôn: (01495) 766096

Yr Aelod Gweithredol a benodwyd ar gyfer Llywodraeth Gorfforaethol a Pherfformiad (gan gynnwys yr Iaith Gymraeg) ar gyfer 2023/24 oedd y Cyng. Peter Jones

## 3. Cydymffurfiad

Cyhoeddwyd canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar fewnrwyd y Cyngor. Bydd y cyngor yn cynnal ei ymarfer siopa dirgel ei hunain i sicrhau cydymffurfiad cyson â'r Safonau.

### Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

| Grŵp Safonau | Camau a Gymerwyd yn ystod 2023/24 | Camau i'w cymryd yn ystod 2024/25 |
|---|---|---|
| Safonau 1 - 7<br>Gohebiaeth a ddanfonwyd ac a dderbyniwyd | Cyhoeddi canllawiau drwy Fwletin y Staff<br><br>Mae cyfeiriadau e-bost corfforaethol wedi'u cyfieithu a byddwn yn parhau i weithio gydag SRS i fabwysiadu'r cyfeiriadau dwyieithog newydd | Monitro gohebiaeth gyffredinol â'r cyhoedd i sicrhau cydymffurfiaeth. |
| Safonau 8 - 22<br>Galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd | Mae’r Cyngor wedi profi’r negeseuon awtomatig wedi'u recordio'n ac maent yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol<br><br>Rhwng Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, derbyniodd prif ganolfan alwadau'r Cyngor gyfanswm o 77,678 o alwadau. Dewisodd 0.84% (650 galwad) o'r galwadau hyn yr opsiwn Cymraeg. | Sicrhau bod aelodau a staff yn ymwybodol o'r protocol wrth ymdrin â galwadau Cymraeg.<br><br>Adrodd nôl i Gomisiynydd y Gymraeg ar gamau a gymerwyd yn dilyn ymchwiliad CS1149 |
| Safonau 24 - 36<br>Cyfarfodydd gyda’r Cyhoedd | Mae'r datblygiadau gan Microsoft wrth gyflwyno cyfieithu ar y pryd o fewn Teams wedi sicrhau y gellir darparu gwasanaeth ar gyfer pob cais lle bo angen.<br><br>Er bod rhai problemau ansawdd sain yn ystod 2023/2024 | Parhau i weithio gyda'n cyfarwyddith ar y gofyniad i asesu sgiliau iaith eu cynulleidfaoedd. |
| Safonau 37 - 51, 69 - 70<br>Dogfennau dwyieithog eraill | Mae'r holl gyfarwyddiaeth wedi cael eu hysbysu am y Safonau sy'n ymwneud â chynhyrchu dogfennau cyhoeddus. | Monitro samplau o ddogfennau i sicrhau cydymffurfiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| Safonau 52 - 60<br>Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol ac Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth | Cafodd tudalennau Cymraeg y wefan gorfforaethol 6,411 o ymweliadau yn ystod 2023/24, o'i gymharu â 2,122,148 o ymweliadau i'r tudalennau Saesneg.<br><br>Mae hyn bron ddwywaith yr ymweliadau yn ystod y flwyddyn flaenorol. | Monitro gwefannau sy'n eiddo i'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth |
| Safonau 61 - 63<br>Arwyddion | Nid oedd unrhyw ddatblygiadau Tai yn ystod 2023/24.<br><br>Nid yw arwyddion enwau strydoedd presennol yn cael eu cyfieithu. | Monitro'r gwaith adnewyddu pellach yn y Ganolfan Ddinesig a Thŷ Blaen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth |
| Safonau 64 - 68<br>Gwasanaethau'r Dderbynfa | Ymweliadau cyfnodol yn ystod y flwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth. | Gweithio gyda'r tîm recriwtio a rheolwyr i sicrhau bod pob swydd newydd yn y dderbynfa yn cael eu gwerthuso gyda'r sgiliau Cymraeg priodol. |
| Safonau 71 - 75<br>Rhoi Grantiau | Bydd yr adran Archwilio Fewnol yn asesu perfformiad unrhyw gyllid a ddyfernir fel rhan o grant yn unol â'r Safonau dyfarnu grantiau.<br><br>Ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau yn ystod 2023/2024 mewn perthynas â grantiau a'u cydymffurfiaeth â'r gofynion | Gweithio gyda'r adran Archwilio Fewnol i sicrhau fod asesiadau'n cael eu cynnal |
| Safonau 76 - 80<br>Rhoi Cytundebau | Mae pob gwahoddiad caffael yn cynnwys elfennau sgorio'r Iaith Gymraeg.<br><br>Mae pob tendr llwyddiannus yn cael cynnig cefnogaeth gyda'r Gymraeg. | Parhau i weithio gyda darparwyr trydydd parti ar ofynion y Gymraeg |
| Safonau 81 - 82<br>Hyrwyddo Gwasanaethau Iaith Gymraeg | Darparwyd canllawiau hyrwyddo gwasanaethau drwy'r cyfryngau cymdeithasol i staff<br><br>. | Monitro'r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo'n weithredol. |

| | | |
|---|---|---|
| Safon 83<br>Hunaniaeth Gorfforaethol | Mae hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog | Monitro cydymffurfiaeth |
| Safonau 84 a 86<br>Cyrsiau Addysgol | Hysbysebwyd cyrsiau gyda chynnig dewis iaith.<br><br>Asesir pob cwrs o ran nifer y mynychwyr a'r ddarpariaeth. | Sicrhau bod yr asesiad o gyrsiau yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan |
| Safon 87<br>Systemau Cyhoeddiadau Cyhoeddus | Mae'r cyhoeddiadau a wneir ym mhob lifft yn Swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog. | Monitro cydymffurfiaeth |

## Safonau Llunio Polisi

Cyhoeddir canllawiau a dehongliad y Cyngor ar ofynion y Safonau Llunio Polisi ar fewnrwyd y Cyngor.

| **Grŵp Safonau** | **Camau a Gymerwyd yn ystod 2023/24** | **Camau i'w cymryd yn ystod 2024/25** |
|---|---|---|
| Safonau 88 - 93 | Mae asesiad effaith integredig y Cyngor, sy'n gysylltiedig â'r 7 nod llesiant cenedlaethol, yn parhau i fod yn arf effeithiol.<br><br>Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn goruchwylio pob penderfyniad polisi sy'n gofyn am asesiad effaith integredig cyn ei gyflwyno i'r Aelodau Etholedig | Datblygu modiwl hyfforddi ar-lein (erbyn Gorffennaf 2024) i hysbysu staff o'r gofyniad a canllawiau ar sut i weithredu "ystyriaeth gydwybodol" i'r Gymraeg ar bob cam o'r broses. |

## Safonau Gweithredu

Cyhoeddir canllawiau a dehongliad y Cyngor ar gyfer staff ar ofynion y Safonau Gweithredu ar fewnrwyd y Cyngor. Bydd y cyngor yn cynnal ei ymarfer siopa dirgel ei hunain i sicrhau cydymffurfiad cyson â'r Safonau.

| **Grŵp Safonau** | **Camau a Gymerwyd yn ystod 2023/24** | **Camau i'w cymryd yn ystod 2024/25** |
|---|---|---|
| Safonau 99 – 104<br>Dogfennau Cyflogaeth | Mae'r holl ddogfennau Adnoddau Dynol electronig yn ddwyieithog.<br><br>Mae'r system awtomataidd ar gyfer nodi gwyliau / absenoldebau, treuliau a gwerthuso staff yn parhau i fod yn Saesneg yn unig. | Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth |
| Safonau 105 – 111<br>Polisïau Adnoddau Dynol | Darperir holl bolisïau Adnoddau Dynol y Cyngor yn Gymraeg ar fewnrwyd y staff (SWOOP). | Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth |
| Safonau 112 – 119<br>Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu; | Mae 7 (0.4% o'r rhai sydd wedi cwblhau eu dewis iaith) aelod o ataf wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith gyfathrebu | Ymgyrch newydd annog staff i gwblhau eu sgiliau iaith a dewis iaith (iFOR) |
| Safonau 120 - 125<br>Mewnrwyd y Staff ac Adnoddau TG | Mae'r 'pecyn iaith' Cymraeg wedi'i osod ar bob cyfrifiadur Newydd, ym mhob ystyr. | Adolygu holl adnoddau ar dudalennau Cymraeg y fewnrwyd |
| Safon 127<br>Sgiliau Iaith Staff | Gweler yr adran ar *sgiliau iaith Gymraeg*. | Bydd lefelau iaith newydd yn cael eu cyflwyno (CEFR) i ddod â sgiliau iaith yn unol â Llywodraeth Cymru, y ganolfan dysgu Cymraeg ac awdurdodau lleol eraill. |
| Safonau 128 - 133<br>Hyfforddi staff | Gweler yr adran ar *sgiliau iaith Gymraeg*.<br><br>Nid oedd yr un aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant Adnoddau Dynol a gynigiwyd yn Gymraeg | Parhau i hyrwyddo dysgu Cymraeg fel sgil gwerthfawr.<br><br>Datblygu modiwl ymwybyddiaeth Cymraeg ar-lein ac edrych ar ei gwneud yn orfodol i bob dechreuwr newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn ystod 2022/2023, ymgymerodd 12 o weithwyr hyfforddiant iaith Gymraeg. | |
| Safonau 134 - 135<br>Geiriad a Logo ar gyfer Llofnod E-byst Staff | Atgoffir yr holl staff, drwy reolwyr llinell, i gael llofnod e-bost dwyieithog yn unol â safonau corfforaethol.<br><br>Mae'r logo "Cymraeg Gwaith" ar gael i staff ei lawrlwytho ar y fewnrwyd. | Diweddaru'r holl adnoddau ar dudalennau Cymraeg y fewnrwyd |
| Safonau 136 - 140<br>Y Broses Recriwtio | Gweler yr adran *Recriwtio* | Cyflwyno ffurflen asesu swyddi newydd/gwag i'w chyflwyno.<br><br>Monitro cydymffurfiaeth ar ôl dileu tâl cyfieithu mewnol. |
| Safonau 141 - 143<br>Arwyddion Mewnol | Rhoddwyd hyfforddiant uniongyrchol i staff sy'n comisiynu arwyddion priffyrdd ac arwyddion strydoedd.<br><br>Cynhaliwyd Seminar Aelodau Etholedig i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion iaith Gymraeg statudol yng nghyd-destun y Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd. | Monitro'r gwaith o adnewyddu swyddfeydd y Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth<br><br>Uned y Gymraeg i barhau i gymeradwyo pob arwydd priffyrdd a chyfieithiad arwyddion enwau strydoedd i sicrhau cydymffurfiaeth. |
| Safon 144<br>Cyhoeddiadau'r Gweithle | Mae'r cyhoeddiadau a wneir ym mhob lifft yn swyddfeydd y Cyngor yn ddwyieithog. | Parhau i fonitro |

## Cwynion

Mae pob cwyn a dderbynnir gan drigolion trwy gyfrwng y Gymraeg neu sy’n ymwneud â methiant i gydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn unol â pholisi cwyno corfforaethol y Cyngor. Caiff cwynion eu categoreiddio dan dri cham

- **Cam 1 -** Datrys cwyn yn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith
- **Cam 2 -** Cwyn Cam 1 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog uwch neu gŵyn sy’n ymwneud â mwy nag un maes gwasanaeth. Caiff cwynion eu harchwilio’n ffurfiol a chânt ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.
- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus / Comisiynydd y Gymraeg -** Cwyn Cam 2 sydd wedi ei chyfeirio at swyddog neu gorff uwch a all gael arolwg annibynnol ar ran yr achwynydd. Byddai’r Ombwdsmon yn disgwyl i’r achwynydd fod wedi defnyddio proses gwyno lawn y Cyngor cyn cysylltu, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. O dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru), mae Comisiynydd yr Iaith yn medru derbyn cwynion a anfonir yn uniongyrchol i swyddfa’r Comisiynydd ac ymchwilio ar eu rhan, os tybir bod y gŵyn yn un ddilys.

Yn ystod 2023/2024, derbyniwyd 6 cwyn. Mae’r tabl canlynol yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd ym mhob cam:

| Cam 1: | Cam 2: | Comisiynydd y Gymraeg |
|---|---|---|
| 1 | 0 | 5 |

Cam 1
Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 09/02/2024
Diffyg darpariaeth chwarae Cymraeg. Ni aeth y gŵyn ymhellach.

Comisiynydd y Gymraeg
Cynhaliwyd 5 ymchwiliad newydd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod 2023/2024

CS1130 - (yn parhau o 2022/2023) - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 27/03/2023
Arwydd llwybr beicio uniaith Saesneg wedi'i leoli ar gyffordd Tŷ Coch Way a Hollybush Way yng Nghwmbrân. Ni chynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad llawn.

CS1145 - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 25/04/2023
Cyfrif Twitter y Cyngor ddim yn Gymraeg ac arwyddion traffig dros dro ym Mhontnewydd, Cwmbrân

CS1163 - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 12/06/2023
Mae arwyddion stryd a arferai fod yn ddwyieithog wedi newid i fod yn uniaith Saesneg / arwyddion traffig yn Saesneg yn unig. Ni chynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad llawn.

CS1061 - Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 28/09/2022
Mae'r gŵyn hon yn cyfeirio at gŵyn a godwyd ym mis Medi 2022, ond ni ymchwiliwyd iddi a'i chyfeirio at Dribiwnlys y Gymraeg i'w phenderfynu. Ail-agorwyd yr achos ym mis Mehefin 2023. Mae'r gŵyn yn ymwneud â arwyddion enwau strydoedd ac ystyriaeth y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor, mae'r Ymchwiliad yn parhau.

| | |
|---|---|
| CS1149 - | Cwyn a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 25/11/2023.<br>Ni atebwyd pedair galwad ffôn a wnaed fel rhan o ymarfer cudd siopwyr y Comisiynydd. Mae'r ymchwiliad hwn yn parhau. |
| CS1216 - | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 27/11/2023<br>Ni dderbyniwyd ateb at gais am wybodaeth Treth y Cyngor yn Gymraeg. Ni chynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad llawn. |

## Sgiliau'r Iaith Gymraeg

Mae'r porthol cyflogeion Adnoddau Dynol (iFOR) yn dal, cofnodi ac adrodd ar sgiliau iaith staff, yn y modiwl dysgu a datblygu, ble gall staff ddiweddaru eu sgiliau yn ôl y gofyn. Mae 28% o staff wedi cwblhau'r asesiad. Dyma'r data diweddaraf ar Sgiliau Iaith Gymraeg a dewis iaith y staff.

Mae'r tabl isod yn dangos pob maes gwasanaeth a lefel y rhuglder gan ddefnyddio'r graddfeydd ALTE (Association of Language Testers in Europe) ar gyfer siarad Cymraeg

0 = Dim sgiliau iaith Gymraeg (mae hwn hefyd yn cynnwys staff sydd ddim wedi cwblhau'r asesiad)
5 = Medrus

### Nifer o Siaradwyr Cymraeg fesul Adran

| | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion a Chymunedau | 633 | 48 | 7 | 3 | 2 | 7 | 700 |
| Yr Economi a'r Amgylchedd | 342 | 6 | 0 | 1 | 3 | 1 | 353 |
| Plant a Gwasanaethau i Deuluoedd | 1220 | 63 | 3 | 2 | 0 | 4 | 1292 |
| Cyfarwyddiaeth Adnoddau | 240 | 40 | 9 | 5 | 4 | 2 | 300 |
| Gwasanaeth Adnoddau a Rennir | 203 | 22 | 5 | 0 | 1 | 1 | 232 |
| **Cyfanswm** | **2638** | **179** | **24** | **11** | **10** | **15** | **2877** |

## Canran (%) o Siaradwyr Cymraeg fesul Adran

| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion a Chymunedau | | 13.6 | 6.9 | 0.4 | 0.3 | 1.0 | 22.2 |
| Yr Economi a’r Amgylchedd | | 1.7 | 0.0 | 0.3 | 0.8 | 0.3 | 3.1 |
| Plant a Gwasanaethau i Deuluoedd | | 4.9 | 0.2 | 0.2 | 0.0 | 0.3 | 5.6 |
| Cyfarwyddiaeth Adnoddau | | 13.3 | 3.0 | 1.7 | 1.3 | 0.7 | 20.0 |
| Gwasanaeth Adnoddau a Rennir | | 9.5 | 2.2 | 0.0 | 0.4 | 0.4 | 12.5 |
| **Cyfanswm** | | **6.2** | **0.8** | **0.4** | **0.3** | **0.5** | **8.3** |

## Dewis Iaith Staff

| | Saesneg | Cymraeg | |
|---|---|---|---|
| Oedolion a Chymunedau | 243 | 3 | |
| Yr Economi a’r Amgylchedd | 119 | 2 | |
| Plant a Gwasanaethau i Deuluoedd | 137 | 2 | |
| Cyfarwyddiaeth Adnoddau | 246 | 0 | |
| Gwasanaeth Adnoddau a Rennir | 133 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **878** | **7** | **0.4%** |

Yn ystod 2024/2025, bydd y lefelau cofnodi ar gyfer sgiliau Cymraeg yn newid i'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Mae'r CEFR yn trefnu hyfedredd iaith mewn chwe lefel, A1 i C2, y gellir eu hail-grwpio'n dair lefel eang: Defnyddiwr Sylfaenol, Defnyddiwr Annibynnol a Defnyddiwr Hyfedredd, a gellir isrannu hynny ymhellach yn unol ag anghenion y cyd-destun lleol. Diffinnir y lefelau trwy ddisgrifyddion 'gallu gwneud'.

Nid yw CEFR yn cyd-fynd yn union â'r graddfeydd ALTE a ddefnyddiwn ar hyn o bryd. Felly, byddwn yn lansio ymgyrch i gasglu'r data hwn gan staff presennol a newydd, a fydd yn dangos ym mhle mae ein sgiliau iaith wedi'u lleoli ar hyn o bryd ac yn ein helpu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle gallwn ei chael hi'n anodd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg.

## Hyfforddiant iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cynnal nifer o gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, gyda'r bwriad o gynyddu gallu siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad a datblygu hyder staff sy'n gyndyn o ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Mae'r cyrsiau i gyd yn cael eu hariannu'n ganolog.

Yn ystod 2023/2024, aeth 5 o gyflogeion i hyfforddiant iaith Gymraeg drwy’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (a ddarperir gan Goleg Gwent).

Bydd 2 aelod o staff o'n hadran gofal cwsmeriaid yn mynychu'r Cwrs Cymraeg dwys ym mis Gorffennaf. (Nid yw rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau blwyddyn yma)

Mae 8.3% o'n gweithlu yn gallu siarad Cymraeg (Lefelau 1-5)

Astudiodd 2 aelod o staff y Gymraeg drwy "Say Something in Welsh", cwrs ar-lein.

Cwblhaodd 5 aelod o staff yr hyfforddiant ymwybyddiaeth ar-lein drwy’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol

O dan Safon 128, mae’n ofynnol i’r Cyngor ddarparu hyfforddiant Cymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os ydynt yn cael eu cynnig yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu;
- Cyfnod sefydlu;
- Delio gyda’r cyhoedd; a
- Iechyd a diogelwch.

Darparwyd hyfforddiant mewn rhai o'r meysydd hyn yn ystod 2023/24, cynigwyd, yn y gwahoddiad, ddewis iaith i’r rhai a fynychodd.  Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

# Recriwtio

Yn ystod 2023/24, hysbysebwyd **885** o swyddi newydd neu wag gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Roedd nifer y swyddi yn y categori a oedd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg fel a ganlyn:

| Categori | Nifer y swyddi a gategoreiddiwyd | Canran y swyddi a gategoreiddiwyd |
|---|---|---|
| Hanfodol | 30 | 3.39 |
| Dymunol | 48 | 5.42 |
| Angen dysgu | 2 | 0.23 |
| Dim angen sgiliau Cymraeg | 805 | 90.96 |

Fel rhan o'r broses recriwtio, ac fel gofyniad dan Safon 136, rhaid asesu pob swydd o ran ei sgiliau iaith Gymraeg.

O fis Ebrill 2024, bydd y tâl mewnol am gyfieithiadau yn cael ei ddileu. Felly, yn caniatáu i nifer fwy o swyddi gael eu hysbysebu gyda sgiliau Cymraeg a hyrwyddo'r iaith yn haws, gan ddileu'r rhwystrau i gyfieithu a lleihau'r pwysau ar gyllidebau.

# 4. Casgliad

## Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd

Cymeradwywyd strategaeth 5 mlynedd newydd y Cyngor (2024 – 2029) ar 27 Chwefror 2024 gan y Cyngor Llawn. Bydd Torfaen yn anelu i gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg o 8.24% yn 2021 (Cyfrifiad 2021) i 17% erbyn 2029.

Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Strategol Addysg Cymru (WESP) a Strategaeth Llywodraeth Cymru – Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.

## Archwiliad Sgiliau Staff

Mae gennym lawer o staff sydd wedi eu haddysg drwy cyfrwng Gymraeg yn y fwrdeistref, ond gwyddom fod sgiliau'n aml yn cael eu anghofio, ac rhai yn colli hyder. Hoffwn gefnogi ein staff i barhau i ddefnyddio'r sgil bywyd hynod werthfawr hwn. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ddeall lle mae gennym fylchau sgiliau fel y gallwn geisio eu llenwi drwy recriwtio a/neu hyfforddi yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cofnodi sgiliau Cymraeg staff ar ei brif blatfform gweithwyr (iFOR) gan ddefnyddio graddfa ALTE o fesur lefelau sgiliau siarad, darllen, ysgrifennu a deall Cymraeg.

Er mwyn alinio'r sgiliau â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, ein nod yw symud i lefelau recordio CEFR. Mae'r 7 lefel sgiliau sy'n amrywio o 'dim sgiliau' (A0) i 'rhugl' (C2) hefyd yn gysylltiedig â chymwysterau cydnabyddedig a fframweithiau asesu eraill.

Bydd yr arolwg newydd sy’n annog staff i gofnodi eu sgiliau iaith yn cael ei chynnal yn ystod yr Haf.

## Dileu Rhwystrau

O fis Ebrill 2024, bydd codi tâl mewnol ar gyfarwyddiaethau am gyfieithiadau yn cael ei ddileu, a chael gwared ar rwystrau sy'n wynebu rheolwyr wrth reoli pwysau cyllidebau.

Bydd hyn yn caniatáu cynnydd i hyrwyddo'r iaith a'n cynnig Cymraeg i breswylwyr.

Bydd y defnydd cynyddol o dechnoleg hefyd yn helpu'r tîm i gynyddu capasiti a lliniaru unrhyw ofynion cynyddol ar y gwasanaeth cyfieithu.

## Digwyddiadau diwylliannol

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, mewn partneriaeth â Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, parhaodd y Cyngor i gefnogi gŵyl 'Torf-hwyl'. Cododd y Cyngor ymwybyddiaeth o ddiwrnod Santes Dwynwen a'r gwahanol Eisteddfodau drwy gydol y flwyddyn hefyd.

## Datblygu Polisi

Mae Uned y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o'r Asesiad Lles Intergredig ar benderfyniadau polisi.

Fodd bynnag, mae'r angen i asesu'r effeithiau hyn, yn gynharach yn y broses o ddatblygu polisi wedi'i gydnabod. Yn ystod rhan olaf y flwyddyn, mae'r uned wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr i hysbysu cyfarwyddiaethau o ofynion y Safonau a chynorthwyo i gynghori rheolwyr am effeithiau cadarnhaol a negyddol ar bolisi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Bydd modiwl hyfforddi newydd yn cael ei lansio ym mis Gorffennaf 2024, wedi'i anelu at reolwyr sy'n gwneud penderfyniadau polisi.